AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 245 Rhagfyr 2023 - Ionawr 2024

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



"Pa air ydych chi'n ei orddefnyddio?" Dyna gwestiwn sy'n cael ei ofyn i rywun bob wythnos yng nghylchgrawn *Golwg*, fel un o'r 20 cwestiwn mewn colofn o'r enw '20:1'. Mae'r atebion yn gallu bod yn ddifyr iawn a chawn ddysgu pob math o bethau diddorol am enwogion Cymru – gan gynnwys pa air maen nhw'n ei orddefnyddio!

Pa air ydych chi'n ei orddefnyddio? O feddwl am hyn, rwy'n sylweddoli fy mod i'n tueddu i orddefnyddio'r gair Saesneg *extraordinary*. Mae unrhyw beth sy'n wahanol neu'n eithriadol o ddiddorol neu'n arbennig o hardd yn ennill y disgrifiad *extraordinary*. Y peth yw, wrth gwrs, po fwyaf y bydda i'n defnyddio'r gair, lleiaf yn y byd o botensial rwy'n ei adael i bethau fod yn anghyffredin! Mae yna lot o ddoethineb mewn meddwl am ba eiriau rydyn ni'n eu gorddefnyddio. Ydyn ni wir eisiau dadbrisio unrhyw elfen o'n geirfa werthfawr, ym mha bynnag iaith?

Ac eto, eleni, rwy'n teimlo fy mod i mewn cwmni da efo fy hoffter o'r gair hwn, oherwydd teitl ymgyrch Nadolig 2023 yr Eglwys Fethodistaidd yw "Allan o'r Cyffredin." Cawn ein hannog i ystyried sut y creodd Duw rywbeth hynod o anghyffredin allan o rywbeth cyffredin gyda genedigaeth Iesu Grist, a sut mae Duw yn parhau o hyd i wneud pethau anhygoel ac anghyffredin trwy gyfrwng y cyffredin bob dydd, hyd yn oed trwy bobl fel chi a fi. Mae adnoddau ar gyfer yr ymgyrch, yn cynnwys Adnoddau Addoli ar gyfer yr Adfent, y Nadolig a'r Ystwyll, ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan yr Eglwys Fethodistaidd (yr adnoddau Cymraeg yn https://www.methodist.org.uk/media/30830/out-of-the-ordinary_worship-resource_welsh.pdf). Mae Arolygydd pob cylchdaith yng Nghymru wedi derbyn nifer o bosteri lliwgar a chardiau post Cymraeg i'w dosbarthu er mwyn hysbysebu "Allan o'r Cyffredin".

Byddai'n grêt gweld posteri a chardiau post "Allan o'r Cyffredin" yn cael eu defnyddio i wahodd ffrindiau a chymdogion i wasanaethau Nadolig ein capeli eleni. Wedi'r cwbl, mae'r Nadolig *yn* anghyffredin, tydi? I ddechrau, mae'n wahanol i unrhyw adeg arall o'r flwyddyn, hyd yn oed i'r rhai sydd ddim yn cofio bob amser am wir reswm ac ystyr y tymor. Ar y cyfan, byddwn ni i gyd, boed gredinwyr neu beidio, yn gwneud pethau anghyffredin ac yn disgwyl rhythm gwahanol i fywyd, am ychydig ddyddiau o leiaf. Mae'n gyfnod gwahanol i'n cymdeithas. Gall hynny fod yn anodd i rai ond i lawer o bobl mae'n gyfle i fwynhau ac i ddathlu, yn wahanol i bob dydd.

I Gristnogion, rhan bwysig o'n dathlu yw dweud eto a rhoi diolch eto am ddigwyddiad go gyffredin yn ninas Bethlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Babi yn cael ei eni. Beth sy'n anghyffredin am hynny? Mae'n digwydd bob dydd – bob munud, bob eiliad o bob dydd, hyd yn oed! Roedd gan y babi rieni oedd yn bobl gyffredin, ac er gwaetha'r ffaith fod yn rhaid iddyn nhw fod oddi cartref, adeg y geni, a bod yn hyblyg iawn o ran amgylchiadau'r digwyddiad, doedden nhw ddim yn bobl anghyffredin, dim o'r fath beth. Eto, o'r cyffredin fe greodd Duw rywbeth tu hwnt i'r cyffredin, yn rhyddhau nerth cariad sy'n achub y byd ac yn cynnig iachawdwriaeth i bawb. Mae geni Iesu Grist yn cael ei gofio a'i ddathlu ym mhob man, wedi'r holl ganrifoedd. Sôn am ddigwyddiad allan o'r cyffredin!

Os edrychaf yn y drych, person cyffredin iawn rwy'n ei weld. Dim byd sbesial o gwbl. Gwallt wedi britho, croen crychiog, wyneb sy'n mynd yn hŷn (a'r corff hefyd) – dwi'n gwybod nad ydw i'n anghyffredin, er gwaethaf fy hoffter o'r gair! Ond, waeth pa mor gyffredin ydw i, rwy'n hollol sicr y gallwn ni i gyd gael ein defnyddio mewn ffordd allan o'r cyffredin gan ein Duw ni, sy'n gwneud pethau anhygoel trwy bobl arferol, pob dydd. Yr unig beth sy'n angenrheidiol yw bod yn agored i ewyllys ac arweiniad Duw, hyd yn oed yn y pethau bychain a'r beunyddiol, ac efallai yn arbennig yn y pethau bychain a'r beunyddiol. Does dim byd sy'n gyffredin gyda'n Duw anghyffredin ni.

Gobeithio y byddwn ni i gyd yn disgwyl am yr annisgwyl y Nadolig hwn, ac yn cael ein syfrdanu gan gariad a gras Duw yng Nghrist. Yn y pethau cyffredin – distawrwydd, cerddoriaeth, dŵr, bara, gwin, geiriau, cariad ffrindiau a theulu, addoliad ei bobl a genedigaeth baban – mae Duw yn dod atom ni er mwyn eu gwneud nhw, a ni, yn arbennig. Dyna rywbeth allan o'r cyffredin! Pob bendith i holl ddarllenwyr y *Gwyliedydd*, y Nadolig hwn ac yn ystod y flwyddyn newydd sydd i ddod.

## Yna y daw allan wialen o gyff Jesse; a Blaguryn a dyf o'i wraidd ef. (Eseia 11:1)

Ar y clawr y tro hwn gwelir ffenestr Jesse yn Eglwys Dyfnog Sant, Llanrhaeadr yng Nghinmeirch ger Rhuthun, un o drysorau Cymru. Mae'r ffenestr yn dyddio o 1533 ac yn dangos yn ddarluniadol linach yr Arglwydd Iesu fel disgynnydd i Jesse.

**Ar gyfer heddiw'r bore**
**'n faban bach**
**y ganwyd gwreiddyn Jesse**
**'n faban bach;**
**y Cadarn ddaeth o Bosra,**
**y Deddfwr gynt ar Seina,**
**yr Iawn gaed ar Galfaria**
**'n faban bach**
**yn sugno bron Maria**
**'n faban bach.**
**Eos Iâl**





# Gwyliedydd


**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 245**
**RHAGFYR 2023 – IONAWR 2024**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"

***SYLWER AR Y NEWID YN ENW'R CYFRIF, OS GWELWCH YN DDA***

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
5 IONAWR 2024

Llun y clawr gan Rhian Morris

Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa




## Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.**

| | |
|---|---|
| Drws Agored, Shiloh Tregarth | £100 - 00 |
| Capel y Tabernacl, Llanfyllin | £200 - 00 |
| Dienw | £10 - 00 |
| Dienw | £100 - 00 |
| Cyfanswm | £410 - 00 |

## Llythyr at y Golygyddion

Annwyl Olygyddion
Gair o werthfawrogiad, wrth ffarwelio, am y cyfle i ddilyn fy nhaid, John Huw Williams, fel colofnydd i'r Gwyliedydd: ef (Leo) am flynyddoedd maith a minnau am bron i flwyddyn. Pleser pur yw parhau i gloddio am aur fel y daw mwy a mwy o dalpiau gwerthfawr i'r amlwg drwy law Duw. Diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Dymuniadau gorau
**Prydwen Elfed-Owens**



## Y DETHOLIAD, RHIFYN 2023-2024 – MYNNWCH EICH COPI

Ar gael mewn Sol ffa a Hen Nodiant, pris £2. Cysylltwch â Geraint Roberts ar 07855100591. Gobeithio y mwynhewch ddefnyddio'r emynau yn y rhifyn hwn.

## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

Capel Soar Cwm Nantyffyllon, Penygarnedd **£330.00**
'Drws Agored', Shiloh, Tregarth **£100.00**

Anfonwyd y swm o £430.00 ymlaen yn enw Cylchdaith Cymru.

**Apêl Anrhegion Nadolig**: Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i'r Apêl; mae'r elusen yn werthfawrogol o haelioni aelodau a chyfeillion Cylchdaith Cymru. Ceir mwy o newyddion yn y rhifyn nesaf.

**Gwasanaeth Nadolig**: Thema'r gwasanaeth eleni yw Rhannu Llawenydd. Mae i'w gael ar wefan Action for Children yn yr adran Fundraise in your Church.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth - Marc a Margaret
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden,
Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com



# Gobaith, tangnefedd, llawenydd a chariad

*gan y Parchedig Brian H. Jones*



Yn y dyddiau dyrys hyn rydym yn byw ynddynt, mae trychinebau naturiol fel daeargrynfeydd a llifogydd yn achosi marwolaeth, dinistr a loes a hynny oherwydd difaterwch y ddynoliaeth tuag at y greadigaeth, a arweiniodd at newid hinsawdd a chynhesu byd eang. Mae problem costau byw yn aruthrol, pobl yn newynu ac yn dioddef er bod digonedd o fwyd yn y byd. Mae hunanoldeb y gwledydd cyfoethocaf yn arwain at ddioddefaint y gwledydd tlotaf. Mae rhyfel a therfysgoedd yn rhemp yn ein byd. Mae'r byd mewn cyflwr truenus a digalon. Ond a ninnau'n nesáu at y Nadolig cawn ein hatgoffa fod gobaith, tangnefedd, llawenydd a chariad o hyd yn bethau o fewn cyrraedd y ddynoliaeth. Mae Duw wedi cadw ei addewid drwy ac yn ei Fab Iesu Grist.

**Gobaith**

Yn nyfodiad Crist i'n byd, yn aberth y groes ac yn yr atgyfodiad darganfyddir gwir obaith i'r ddynoliaeth gyfan. Fe ddaeth Crist i waredu'r byd o afael drygioni ac i gynnig bywyd sy'n fywyd yn wir. Mae'r cynnig yma ar gael i'r ddynoliaeth gyfan. Crist yw unig obaith y ddynolryw mewn gwirionedd. Ynddo ef, drwy ffydd ac edifeirwch, mae gobaith o fewn cyrraedd pob un. Gobaith a goleuni sy'n dod i ni oherwydd gweithred waredol Crist a heb ddyfodiad Crist ni fyddai gobaith i'r ddynolryw. Nid i gondemnio y daeth Crist i'r byd ond i gynnig gobaith a gwaredigaeth i bawb. Fel y canodd Vernon Lewis yn ei emyn:

*"Saif ein gobaith yn yr Iesu*
*Brenin nef, goleuni'r byd."*

Mae ein gobaith yn yr un a addawodd:
*"Myfi a fyddaf gyda chwi hyd ddiwedd y byd."*

**Tangnefedd**

Crist yw tywysog tangnefedd. Ewyllys Duw oedd cymodi'r byd ag ef ei hun drwy ei unig Fab, Crist Iesu, y Meseia. Drwy aberth fawr y Groes daeth y tangnefedd na ŵyr y byd amdano o fewn cyrraedd y ddynoliaeth gyfan. Pregethu cymod rhwng pobl a Duw ac â'i gilydd a wnaeth Crist. Ond fe fu iddo sôn hefyd am y tangnefedd mewnol yn y galon sy'n deillio o fod mewn iawn berthynas â Duw trwy Iesu Grist. Ein gweddi ydy y bydd arweinyddion gwledydd y byd yn gallu siarad â'i gilydd, cydweithio â'i gilydd, cymodi a deall ei gilydd. Wrth ddeall ein gilydd fel pobl dwi'n sicr y daw cymod a heddwch i'n byd. O ddarganfod Crist, tywysog tangnefedd, fe ddaw y tangnefedd mewnol i drigo yng nghalon yr unigolyn.

**Llawenydd**

Mae'r Nadolig yn ein hatgoffa mai *"newyddion da o lawenydd mawr"* oedd dyfodiad Crist i'r byd. Dod â gwir lawenydd i ni mae ymddiried yn y Crist byw atgyfodedig. Mae yna wahaniaeth rhwng hapusrwydd a llawenydd. Peth dros dro yw hapusrwydd. Mae'n mynd a dod yn ôl mympwy personol ac amgylchiadau ar y foment. Mae'n arwynebol, heb wir ddyfnder iddo. Ar y llaw arall perthyn i lawenydd Crist ddyfnder ac mae'n barhaol ei natur. Fel y dywedodd Crist: *"yr wyf wedi dweud hyn wrthych er mwyn i'm llawenydd i fod ynoch, ac i'ch llawenydd chwi fod yn gyflawn."* Mae gwir lawenydd yn y galon ac yn deillio o Grist ei hun. Bydded i ni deimlo llawenydd Crist yn ein meddiannu ninnau yn y dyddiau dyrys, tywyll a digalon hyn rydym yn byw ynddynt. Ymddiriedwn y cyfan yn nwylo y Crist buddugoliaethus.

**Cariad**

Dyma air pellgyrhaeddol ac mae diffyg cariad yn amlwg yn ein byd cythryblus heddiw. Credaf mai diffyg cariad sy'n gyfrifol am helyntion y byd heddiw mewn gwirionedd. Diffyg cariad rhwng pobl a'i gilydd a rhwng pobl a Duw ei hun. Dangosodd Duw beth yw gwir gariad oherwydd *"rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol."* Dylai cariad fod wrth wraidd pob peth a wnawn ac a ddywedwn. Dylai cariad ein sbarduno i weithio gyda'n gilydd ac er lles ein gilydd bob amser. Cariad gweithredol oedd cariad Crist ac felly y dylai ein cariad ninnau fod hefyd. *"Gadewch i ni garu nid ar air nac ar dafod ond mewn gweithred a gwirionedd."* Petaem yn gadael i gariad ein meddiannu a'n rheoli, fe ddeuai gobaith, llawenydd a thangnefedd yn amlwg yn y byd.

Gorffennaf gyda geiriau o eiddo Toyohiko Kagawa yn *Love, the Law of Life*:
*"Cariad yn unig sy'n hollalluog, cariad yn unig sy'n dragwyddol. Cariad a greodd y byd. Cariad sy'n ei gynnal. Cariad yw hanfod Duw. Y mae cariad yn egluro popeth... Â llygaid rhyfeddol cariad y mae Duw a dyn yn canfod ei gilydd. Mewn cariad fe dry llygaid dyn yn llygaid Duw. Mewn cariad y daw duwdod a dyndod yn un."*



# Dysgu Cymraeg

gan **Angharad Tomos**

Clywais wraig **fy nai** yn siarad ar Radio Cymru **yn ddiweddar**. Yn 2016, yn dod o Surrey, doedd Jenny ddim wedi clywed yr iaith Gymraeg **o'r blaen**. **Daeth i nabod** fy nai yn y coleg bryd hynny, a dechrau dysgu Cymraeg. Mewn ychydig flynyddoedd, mae wedi dod yn **rhugl**. Mae ganddi ddwy ferch fach nawr sy'n uniaith Gymraeg! Mae Jenny wedi dysgu Cymraeg oherwydd cariad.

Yn 1994, wnes i gyfarfod fy ngŵr, Ben. **Er ei fod yn dod o** Dredegar, doedd o erioed wedi dysgu Cymraeg. Gwnaeth ymdrech fawr i ddysgu Cymraeg, a **bellach** mae yn byw bob dydd drwy'r Gymraeg. Dysgodd Gymraeg oherwydd cariad.

Fedrwch chi ddim **gorfodi** pobl i ddysgu Cymraeg. Rhaid i bob dysgwr benderfynu **drosto'i hun**. Fel dywedodd Jenny, "Wrth ddysgu iaith newydd, dysgais lawer mwy, dysgais am ddiwylliant newydd." Oherwydd cariad, mae llawer yn cychwyn ar y daith o ddysgu Cymraeg, mae yn **sail i berthynas**.

Fedrwch chi ddim gorfodi pobl i ddod yn Gristnogion chwaith. Rhaid i bawb ddod i **argyhoeddiad** personol. A chariad sydd wrth wraidd hynny hefyd. Dod i argyhoeddiad fod Duw yn ei garu y mae y Cristion. Ac nid set o gredoau a ddysgir wrth ddod i gredu, sail i berthynas ydyw.

fy nai – my nephew
yn ddiweddar – recently
o'r blaen – previously
daeth i (ad)nabod – came to know
rhugl – fluent
er ei fod yn dod o – although he comes from
bellach – by now
gorfodi – force
drosto'i hun – for himself
sail i berthynas – foundation/basis to a relationship
argyhoeddiad – conviction/belief
wrth wraidd – at the root

# CENHADAETH SAN CLÊR

*gan y Diacon Jon Miller*

O'r diwedd, mae'r gwaith yn San Clêr bron â cyrraedd y pwynt roedden ni wedi gobeithio'i gyrraedd ddwy flynedd yn ôl. Wedi dweud hynny, mae'n wir fod y genhadaeth wedi elwa mewn rhai ffyrdd yn sgil y pandemig. Pan oedden ni'n gorfod gweithio ar-lein yn ystod y cyfnodau clo, roedd digon o gyfle i greu presenoldeb ar Facebook. Felly roedd hi'n llawer haws hybu ein gweithgareddau a daeth llawer o bobl i wybod am y gwaith ac amdanaf fi, gan ddod i ymddiried ynof.

Erbyn hyn dan ni'n cynnal Llan Llanast unwaith y mis yng nghwt y sgowtiaid ac mae nifer o deuluoedd yn dod yn rheolaidd. Mae'n cael ei gynnal yn ddwyieithog. Er taw'r plant ac nid y rhieni sy'n deall Cymraeg yn y rhan fwyaf o'r teuluoedd hyn, mae'r cyfarwyddiadau ar gyfer y crefftau yn cael eu rhoi yn y ddwy iaith ac mae ein gweddïau i gyd yn Gymraeg. Yn ystod y gaeaf buom yn gweithio gyda Chyngor y Dref i redeg menter ddwyieithog Canolfan Glyd yn Y Gât. Roedd yn hynod boblogaidd ac fe wnaethon ni barhau i gyfarfod hyd yn oed ar ôl i'r tywydd gynhesu. Beth bynnag, mae'r caffi yn Y Gât am gael ei redeg yn breifat nawr ac mae dyfodol y grŵp yn y fantol.

Fel rhan o'r gwaith cenhadol yn San Clêr, byddaf yn eistedd yn rheolaidd yn Mol's Bistro yn y dref ac yn paentio gyda phaent dyfrlliw. Yna byddaf yn rhoi'r lluniau i bobl. Mae adnod o'r Beibl neu neges ar bob llun, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae paentio mewn lle cyhoeddus yn ennyn chwilfrydedd pobl ac yn ffordd dda o gychwyn sgwrs. Mae hyn yn wych, yn enwedig ar gyfer cwrdd â Chymry Cymraeg lleol sydd wedi fy helpu i ddod i arfer â thafodiaith y De.

Y peth mwyaf cyffrous am y gwaith cenhadol ydy ein bod yn dechrau ffurfio eglwys o gwmpas y celfyddydau a chreadigrwydd. Mae llawer o bobl wedi mynegi diddordeb yn y paentiadau ac fe wnes i synhwyro fod yr Ysbryd Glân yn dweud wrtha i taw dyma'r ffordd i ddod at ein gilydd a ffurfio cymuned.

Unwaith y mis, felly, dan ni'n cwrdd yn Mol's Bistro yn San Clêr a dw i'n dysgu pobl sut i baentio gyda dyfrlliw. Caffi Creu ydy ei enw e. Dan ni'n dysgu paentio ac wedyn wrth i'r gwaith sychu dw i'n rhannu adnod o'r Beibl a cherdd neu gerddoriaeth neu rywbeth ac yn gofyn cwestiynau i'r grŵp i gael pobl i ddechrau siarad a rhannu. Wedyn dan ni'n paentio dipyn bach mwy ac yn rhannu disgled a cacen wedi'i phobi gartref. Y tro cyntaf, 4 o bobl ddaeth, y mis wedyn roedd 16 ac 17 y mis ar ôl hynny. Poeni nawr na fydd yna ddigon o le cyn bo hir!





# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Shiloh Newydd, Tregarth

**DRWS AGORED**
Dros rai misoedd cynyddodd cronfa elusennol Drws Agored i £400. Diolch i bawb am eu cyfraniadau ar y plât casglu o wythnos i wythnos. Cyfrannwyd £200 i Hosbis Dewi Sant, £100 i'r *Gwyliedydd* a £100 i Gweithredu dros Blant.
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

## Salem, Rhyd y Foel

**GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH**
Ddydd Sul Hydref 8fed fe wnaethom ymuno ag aelodau ardal Betws yn Rhos mewn oedfa undebol o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Mihangel Sant, Betws yn Rhos. Yna mwynhawyd swper blasus yn neuadd y pentref. Gwnaed casgliad tuag at yr elusen “Iechyd meddwl ffermwyr”. Ddydd Sul Hydref 15fed cynhaliwyd Oedfa Diolchgarwch undebol yn Salem o dan ofal Catherine a'r ieuenctid a'u mamau. Addurnwyd y capel yn hyfryd gan Esther a Menna a derbyniwyd nwyddau tuag at y banc bwyd lleol. Braf oedd cael cwmni aelodau Hyfrydle, Betws yn Rhos yn yr oedfa fendithiol hon a chael mwynhau paned wedyn a theisennau cri a wnaed gan Nia.





**LECTERN A THAPESTRI**
Pleser oedd cael derbyn lectern a thapestri o'r Swper Olaf er cof am y diweddar Barchedig a Mrs J Haines Davies yn dilyn dirwyn yr achos i ben yn Horeb, Bae Colwyn.

**SIALENS ARBENNIG**
Llongyfarchiadau i Anna (Cefn Frân, gynt) ar gyflawni'r sialens o gerdded 10,000 o gamau bob dydd drwy fis Medi, er cof am ei thad Tudur Jones (a fuasai wedi dathlu ei ben-blwydd yn ystod y mis hwnnw) ac er budd Ymchwil y Galon. Roedd Tudur yn aelod a blaenor yn Horeb Betws yn Rhos ac yn fawr ei barch yn y gymuned.

**COFION**
Anfonwn ein cofion at Ieuan a gafodd lawdriniaeth ar ei lygaid, ac at Emlyn M Davies ac Ann ei briod, nad ydynt wedi bod mewn iechyd da.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Pendref, Dinbych

**OEDFAON**
Yn ystod Medi a Hydref arweiniwyd gwasanaethau gan Dr Prydwen Elfed Owens, Dilwyn Jones, Elizabeth Jones, Celfyn Williams, Huw Vaughan Jones a'n gweinidog y Parchedig D Marc Morgan, a chawsom gyfarfodydd gweddi dan arweiniad Medwyn Jones, Marjorie Williams, Gwyn Williams, Hywel Evans ac Elfed Evans. Diolch yn fawr i bawb.

**DIOLCHGARWCH**
Dydd Iau Hydref 5ed cynhaliwyd gwasanaethau diolchgarwch undebol capeli tref Dinbych yn Eglwys Lôn Swan, yn unol â'r traddodiad. Cymerwyd rhan gan Hywel Evans yn cynrychioli Pendref.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
Dydd Llun Hydref 30ain cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd a chafwyd cyfarfod effeithiol a hwyliog. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith ac fe'u hail-etholwyd i gyd am flwyddyn arall.

**DIGWYDDIADAU**
Cynhelir ein Ffair Hydref ar Dachwedd 18fed yng nghanolfan Eirianfa. Yna cynhelir ein cinio blynyddol (y tro cyntaf ers Covid) yn y Cherry Pie, Melin y Wern, dydd Sadwrn Tachwedd 25ain.

**CROESO I'N CYMANFA GAROLAU**
Dydd Sul Rhagfyr 17 byddwn yn cynnal yr oedfa am 3 o'r gloch y prynhawn yn lle 10 o'r gloch y bore, sef Cymanfa Garolau dan ofal Vera Savage a chorau Merched Caerwys a Meibion Caerwys. Mae croeso cynnes i bobl Dinbych a phawb yn yr ardal, y Gylchdaith a'r Synod.
**GOHEBYDD .** MARY JONES



## Ebeneser, Dolgellau

**DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein Hoedfa Diolchgarwch ar fore Sul 15fed Hydref gydag amryw o'n haelodau yn cymryd rhan. Diolchwn i'r Chwaer Eluned Williams am baratoi'r gwasanaeth er na allai fod yn bresennol. Roedd y capel wedi ei addurno'n hyfryd gan rai o'n haelodau ac fel y gwelir yn y llun, roedd Nesta ac Efin wedi creu poster hardd eto eleni.

**CAFFI CAPEL**
Ar 29 Hydref cawsom oedfa Caffi Capel yn y Llyfrgell Rydd dan arweiniad Irene Edge a Menna Lloyd Jones gyda Ruth Nicholls ar yr allweddell. Pawb yn cael eu croesawu gyda phaned ac yna ymlaen â ni i addoli a dysgu mewn ffordd anffurfiol.

**YMDDEOLIAD**
Dymuniadau gorau i Alan Woodbridge sydd wedi ymddeol yn ddiweddar.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at y Chwaer Eluned Williams gan ddymuno iddi wellhad buan.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE




## Bethel, Prestatyn


**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ddiwedd Medi pan gymerwyd rhan gan y plant lleiaf, yr ieuenctid, y rhieni a'r aelodau hŷn. Yn dilyn y gwasanaeth mwynhawyd lluniaeth yn yr ysgoldy.

**DIOLCH AM GYMWYNASAU**
Mae Mrs Eiry Parry wedi ymddeol bellach o'i swydd fel 'Ceidwad y Porth'. Mae hi wedi ein croesawu bob bore Sul am flynyddoedd gyda sgwrs a fferins. Bydd Jane, Bethan a Rachel yn ymgymryd â'r gwaith yn awr gydag ychydig o help gan y plant – ond mae Eiry yn parhau i ddosbarthu'r fferins! Diolchwyd i Eiry am ei gwaith yn croesawu, yn trefnu'r rhestr blodau ac yn ein cynrychioli yng nghyfarfodydd Cytûn a chyflwynwyd siocled a thusw o flodau iddi gan Carys a Bethan.






**CLAVINOVA**
Hyfryd yw gallu rhoi cyfle i rai ifanc gymryd rhan flaenllaw yn yr oedfaon. Mae Henry, mab Karen, yn chwarae'r clavinova yn ystod y casgliad a phawb yn mwynhau.



**EGLWYS ECO**
Diolch i Claire am gynnig arwain y fenter newydd yma, gyda chymorth Carys a Bethan.

**GOFALU**
Bu Geraint, Angela a'r Parchedig Brian Huw yn ymweld ag un o'u haelodau, Mr Tom Owens, mewn cartref gofal lleol ac roedd Tom a'r preswylwyr eraill wedi cael bendith o'r ymweliad. Er mwyn cadw mewn cysylltiad mwy rheolaidd â phawb o'r cleifion, penderfynwyd yn ein Cyfarfod Blynyddol sefydlu trefn lle bydd aelod penodol yn ffonio ac ymweld yn rheolaidd â phawb sy'n wael.



**HOLIADUR 'Y FFORDD YMLAEN'**
Anfonwyd holiadur at yr aelodau iau i gael gwybod am eu syniadau a'u barn. Ymysg yr atebion roedd: “atgoffa'r pregethwr am emyn y plant a defnyddio'r offerynnau”; “cofio am stori i'r plant”; “oedfaon 'gwahanol' e.e. dysgu emynau newydd”; “gofyn i'r pregethwr gysylltu thema'r gwasanaeth â'n bywydau ni”. Felly wrth drefnu Plan y flwyddyn nesaf, rydym yn ceisio gwireddu'r syniadau hyn.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

# Neges y nadolig cyntaf mor berthnasol ag erioed

*gan Glyn Tomos*

Mae wedi bod yn anodd meddwl am ddim byd arall ar wahân i'r hyn sydd wedi bod yn digwydd ym Mhalesteina ac Israel ers dechrau mis Hydref. Mae'r sefyllfa yn erchyll yno ac wrth baratoi'r nodiadau hyn mae heddwch i weld ymhell iawn. Mae'r sefyllfa gyfan yn drychinebus.

Mae'r profiad o wylio o bell yn ddychrynllyd o anodd ac yn hynod o ddigalon. Wrth gwrs mae gennym ni y dewis i ddiffodd y teledu neu'r radio os byddwn yn teimlo bod y cyfan yn ormod i ni. Ond i'r miloedd sydd yn dioddef o golli eu plant, aelodau eu teulu, ffrindiau a chymdogion, nid oes modd dianc o'r lladd a'r dinistr sydd yn digwydd o'u cwmpas bob awr o'r dydd a nos. Mae gwylio cri y fam neu'r tad a hyd yn oed plentyn yn eu trallod ar ôl deall bod aelodau eu teuluoedd neu eu teuluoedd cyfan wedi eu lladd yn y gyflafan erchyll hon yn dorcalonnus ac mae'n anodd dychmygu beth fydd eu dyfodol. Mae rhywun yn teimlo mor ddiymadferth wrth wylio'r cyfan. Er derbyn cymhlethdodau hanesyddol y berthynas sydd rhwng y ddwy wlad a bod gan bob gwlad yr hawl i amddiffyn eu pobl eu hunain, ni ellir caniatáu lladd miloedd ar filoedd o blant a phobl ddiniwed. Tydi o yn rhyfeddol bod dynoliaeth yn dal i wrthod derbyn nad yw rhyfel yn ateb dim nac ychwaith yn datrys unrhyw beth.

Er na ellir cyfiawnhau ar unrhyw lefel y lladd didrugaredd a chadw plant a phobl ddiniwed yn wystlon, mae rhywun yn teimlo y gallai arweinyddion y byd fod wedi gwneud llawer mwy i alw am heddwch a chymod na'r hyn sydd wedi digwydd hyd yma. Ar yr un pryd rhaid gofyn pam nad yw llais ein henwadau crefyddol wedi ei glywed yn ddigon croch ar y mater yma? Ai cyndynrwydd ein cyfrynggau torfol i gyflwyno llais yr Eglwys a'i phobl sydd i'w gyfrif am hyn?

A ninnau ar drothwy Gŵyl y Geni, mae neges ganolog y Nadolig cyntaf hwnnw yr un mor berthnasol neu hyd yn oed yn fwy perthnasol heddiw nag y mae hi wedi bod erioed. Yn wahanol iawn i'r darlun cyfforddus a braf sydd yn cael ei gyfleu i ni o bob cyfeiriad gan y byd masnachol hyd at y diwrnod mawr ei hun gwyddom nad hynny oedd amgylchiadau'r Nadolig cyntaf hwnnw.

Yr oedd y daith i Mair a Joseff yr holl ffordd o dref Nasareth i Fethlehem yn un heriol a pheryglus a dweud y lleiaf. Roedd pwysau mawr ar y boblogaeth gyfan i ymateb i orchymyn Cesar Awgwstus i gofrestru yn eu tref enedigol. Roedd hyn yn golygu taith gerdded hir a llafurus gyda phawb yn ceisio ennill y blaen ar ei gilydd i sicrhau llety ar ddiwedd y daith. Gyda Mair yn feichiog a Joseff yn poeni am ei chyflwr mae'n siŵr bod meddwl sut roeddent am lwyddo i gyrraedd Bethlehem yn ddiogel yn boen meddwl aruthrol. Yna cafwyd y siom o ddeall nad oedd lle iddynt yn y gwesty, ac yn lle hynny roedd rhaid derbyn y cynnig i aros mewn stabl gan arwain at yr enedigaeth wyrthiol yno. Arweiniwyd y bugeiliaid a'r angylion at y man geni i weld y baban Iesu tra yn y cefndir roedd creulondeb Herod yn bygwth taflu cysgod dros y cyfan.

Yr hyn mae'r Nadolig cyntaf yn ei ddangos i ni yw bod Crist wedi ei eni i fyd oedd yr un mor helbulus, creulon ac anodd ag sydd gennym ni heddiw. Ond mae ei enedigaeth yn cynnig gobaith am iachawdwriaeth a bywyd newydd i bob un ohonom. Y neges glir sydd yn dod allan o'r hanes yma yw bod cariad yn gallu trechu casineb a bod gobaith ar gael trwy dderbyn Iesu Grist.

Er mor anobeithiol y mae hi'n edrych ar hyn o bryd y gwelwn heddwch yn dychwelyd i'r Dwyrain Canol yn fuan, mae neges y Nadolig yn un o obaith ac mae'n bwysig ein bod yn dal gafael ar hyn er mwyn pawb sydd yn dioddef yn sgil rhyfeloedd.

Mae gweddïau pob un ohonom mor bwysig ar yr adeg yma. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni droi at Dduw gan ofyn iddo am ei gariad graslon a'i dosturi dros bawb sydd yn dioddef. Gofynnwn am oleuni ac am ei arweiniad ef y Nadolig hwn.





# Cadw Golwg Ar Y Seren

*gan Arwel Williams*

Er y newidiadau a welir mewn llawer man yn y ffyrdd y dethlir y Nadolig y dyddiau hyn, gyda'r Baban Iesu fel pe bai yn cael ei wthio yn fwyfwy i'r cyrion, mae'n siŵr gen i y bydd mwy o berfformio ar Ddrama'r Geni mewn neuaddau ac ysgolion, yn ogystal â chapeli, nag unrhyw ddrama arall yn ystod yr wythnosau sy'n arwain at y Nadolig. Bu'r rhan fwyaf ohonom yn rhan o'r ddrama yn ystod ein plentyndod, os nad yn Fair neu'n Joseff yna yn angel neu yn un o'r doethion neu'n fugail, yn ŵr y llety o bosib, neu hyd yn oed yn Herod.

Dim ond tri ohonom oedd tua'r un oed yng nghapel Bethel, Graigfechan pan oeddwn yn blentyn, sef Glenys Hughes, Tŷ Coch, Dilys Smith, Tŷ Newydd, a finnau ac felly doedd yna ddim cyfle i berfformio rhyw ddramâu uchelgeisiol. Er bod y blynyddoedd bellach yn tueddu i ddwyn y rhan fwyaf o atgofion plentyndod, daw i'm cof un ddrama a berfformiwyd ar y cyd gyda rhai o gapeli eraill hen Gylchdaith Rhuthun. Rhyw fugail bach oeddwn i a rhoddwyd imi'r enw Seth. Byddai un o flaenoriaid Bathafarn, y diweddar annwyl Arthur Jones, yn fy nghalw'n 'Seth' yn ddieithriad am flynyddoedd wedyn. Byddai'n fy nghyfarch â gwên ddireidus a'r geiriau "Sut mae Seth?". Ni chofiaf fy mherfformiad, ond mae'n rhaid ei fod wedi bod yn weddol gofiadwy – ai am y rhesymau cywir, wn i ddim!

Ar wahân i ran Mair neu Joseff, mae'n debyg mai bod yn un o'r doethion fyddai'r rhan orau gan lawer, rhan fwy ecsotig y sêr-ddewinwyr o'r Dwyrain Pell gyda'u gwisgoedd lliwgar a'u hetiau coronog, heb sôn am eu hanrhegion o aur, thus a myrr. Rhyw frethyn ar y cefn, lliain llestri ar y pen a ffon fugail fyddai gwisg y bugeiliaid. Wedi dweud hynny cafodd y bugeiliaid wŷs ac ymweliad personol gan Angel, a llu o'r Nefoedd yn eu hysbysu o'r union fan lle ganwyd yr Iesu. Gorfu i'r doethion ymgymryd â thaith hir a dibynnu ar seren i'w harwain, ac wedyn colli golwg ar honno drwy ymddiried gormod efallai yn eu gallu eu hunain a chael eu hunain wedyn ym mhalas Herod. Dim ond wedi iddynt holi ac ailddarganfod y seren yr aethant ymlaen ar eu taith i gyrraedd y preseb.

Mae'n bosib mai profiad y doethion o "grwydro yma a thraw" ydi profiad llawer ohonom. Mae'n siŵr gen i fod pob un ohonom hefyd â rhyw brofiad o seren neu sêr yn ein bywydau. Hynny yw digwyddiadau, neu bobl yn arbennig, sydd wedi ein harwain at yr Iesu, sêr a fu'n ein goleuo a'n harwain yn ein hieuenctid neu ar adegau arbennig neu gythryblus yn ein bywydau. Mae'n bwysig i ni beidio â gwyro a cholli golwg ar y pethau hynny sydd wedi ein harwain a'n cynnal hyd yn hyn.

Roedd cydweithio hyfryd rhwng pum capel hen Gylchdaith Rhuthun (ac wrth gwrs bu i'r cydweithio barhau ac esblygu gyda chapeli hen Gylchdeithiau Corwen a Llangollen yn dilyn yr uno yn y 1970au). Erbyn hyn dim ond un o'r pum capel sy'n dal ar agor o hen gylchdaith Rhuthun, sef Bathafarn, Capel Goffa Edward Jones. Mae'n drist nodi bod y capel hardd hwnnw bellach dan fygythiad.

Wn i ddim faint o angylion oedd ym Methel, Graigfechan, nac yng nghapeli eraill y Gylchdaith pe bai'n dod i hynny, ond mi roedd yna ambell i seren ymysg yr aelodau i'n harwain at yr Iesu. Diolch amdanynt.

Awn i Fethlem, bawb dan ganu,
neidio, dawnsio a difyrru,
i gael gweld ein Prynwr c'redig
aned heddiw, Ddydd Nadolig.

Ni gawn seren i'n goleuo
Ac yn serchog i'n cyf'rwyddo
Nes y dyco hon ni'n gymwys
i'r lle sanctaidd lle mae'n gorffwys.

**Rhys Prichard 1579-1664**

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Tabernacl, Llanfyllin

**CYDYMDEIMLO**
Tristwch mawr i aelodau'r Tabernacl a'r ardal gyfan oedd clywed am farwolaeth Mr Robin Hughes yn 90 oed. Bu'n aelod ffyddlon yn y Tabernacl a chyn hynny ym Moreia, gan wasanaethu fel blaenor am dros 50 mlynedd a dal sawl swydd arall. Roedd yn uchel ei barch fel athro yn Llanfyllin, yn fardd cadeiriol ac yn osodwr papur bro Yr Ysgub, a bu'n gynghorydd a maer y dref. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Mona a Dylan ac Osian a'u teuluoedd.

Yn gymar digymar i Mona
Tad annwyl a chyfaill i'r hogia
Yn fardd ac yn athro i'w barchu
A ffyddlon trwy'i oes fu i'r Iesu.
*Mair Ellis*



**CYFARFOD DIOLCHGARWCH**
Ar Hydref 1af, cynhaliwyd ein hoedfa Ddiolchgarwch dan arweiniad Mrs Beryl Vaughan. Tynnodd ein sylw at ryfeddodau'r gwahanol dymhorau a'r bendithion a gawn ymhob tymor.

**SUL Y BEIBL**
Ein gweinidog, y Parchedig Gwyndaf Richards oedd yng ngofal y gwasanaeth eleni. Anfonwyd £100 i Gymdeithas y Beibl, sef y casgliad ynghyd â rhoddion eraill.

**BEDYDD**
Cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Harri Thornton, baban bach Elin (Catrefle) a Kyle yn y Tabernacl dan ofal Mr Tom Ellis. Boed bendith ar y teulu bach.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Mair Ellis.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau i Keith Blacker ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed. Mae ef a'i wraig yn hynod o weithgar yn gofalu am adeilad y Tabernacl ac rydym yn gwerthfawrogi eu gofal trylwyr.
**GOHEBYDD .**
ALWENA FRANCIS

### Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**PEDAIR CENHEDLAETH**
Llongyfarchiadau i Eirian a'r teulu oll ar enedigaeth Evie Louise. Dyma lun Eirian, Llinos, Amy ac Evie – pedair cenhedlaeth gyda'i gilydd.



**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad llwyr a buan i Llinos.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys ag Eirian a'r teulu ym marwolaeth ei brawd, Arthur Evans, yr Wyddgrug.
**GOHEBYDD** . CYFAILL

### Ebeneser, Ystumtuen

**CWRDD DIOLCH**
Dathlwyd ein Cwrdd Diolch eleni dan arweiniad y Parchedig Ifan Mason Davies a mwynhawyd te ar ôl yr oedfa.



**ER COF ANNWYL**
Daeth newyddion trist i'n sylw wrth i ni glywed am farwolaeth Mrs Yvonne Bonner, Llwyn Teifi Isaf, aelod ffyddlon, brwdfrydig a hael. Rydym yn falch iawn o groesawu Catherine, merch Yvonne, yn aelod yma.
**GOHEBYDD .** GERAINT ROBERTS



### Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Llongyfarchiadau i Awen ac Ifan ar enedigaeth eu merch Martha Gwenllian, chwaer fach i Marged Alys ac wyres i Rhodri a Rhian. Pob bendith.

**GWELLHAD BUAN**
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Gwyn, priod Marian Thomas, Corwen.

**GWASANAETHAU**
Yn ystod mis Hydref cafwyd oedfaon dan ofal Elizabeth a Tom Morris, Llanrhaeadr ym Mochnant, yn ystafell gyfforddus Llys Awelon. Roedd modd i'r preswylwyr ymuno â ni a chael paned a chymdeithasu yn ogystal. Croesawyd pawb gan Rhodri a'r cyfeilydd oedd Elizabeth. Yng Nglyndyfrdwy, cynhaliwyd oedfa dan arweiniad Dorothi Evans. Croesawyd pawb gan Elved a'r cyfeilydd oedd Ann, Plas Isa. Ar Sul olaf Hydref cawsom oedfa undebol yn Eglwys Sant Pedr, Rhuthun.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

### Sant Paul, Aberystwyth

**COLLI BUDDUG**
Roedd yn flin iawn gennym glywed am farwolaeth Mrs Buddug Jenkins ym mis Hydref. Rhoddodd Buddug flynyddoedd o wasanaeth yn hen gapel Sant Paul ac yn yr adeilad presennol. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mab Geraint ac â'i merch Eleri a'u teuluoedd.

**CROESO**
Ar 15 Hydref croesawyd y Parchedig Andrew Charlesworth gan y gynulleidfa Saesneg ar ei ymweliad cyntaf fel cyd-Gadeirydd y Synod. Penderfynodd aelodau o'r gynulleidfa Gymraeg fynychu'r gwasanaeth a hyfryd oedd cael cyfle i gwrdd ag Andrew. Dymunwn yn dda iddo yn ei weinidogaeth yng Nghymru.

**DIOLCH**
Hoffem ddiolch yn gynnes iawn i'r Parchedig Patricia Grudgings am ddod atom yn gyson i arwain ein gwasanaeth ac i sicrhau ein bod yn cael cyfle i dderbyn y Cymun. Rydym yn ddiolchgar hefyd am gymorth ei gŵr Gerald wrth yr organ.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein diolch a phob dymuniad da i'r Chwaer Eluned Williams ar ei hymddeoliad fel Arweinydd yr Ardal. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei harweiniad a'i chymorth i ni dros y blynyddoedd.

**GOHEBYDD .** LIONEL MADDEN

### Ebeneser, Eglwysbach

**LLONGYFARCH**
Llongyfarchiadau i Brenig Llywelyn Hughes, Tu hwnt i'r Fawnog, Maenan, ar ennill gradd Dosbarth Cyntaf BEng gydag Anrhydedd mewn Peirianneg Amaethyddol o Brifysgol Harper Adams. Enillodd Brenig hefyd wobr New Holland am y myfyriwr peirianneg gorau. Dymuniadau gorau yn dy waith newydd gyda chwmni Bateman.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER





**PRIODASAU**
Ar 2 Medi eleni priodwyd Gwenfair Alaw Hughes, Tu hwnt i'r Fawnog, Maenan, a Gareth Edward Bickerton, Lloran Uchaf, Llansilin. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng nghapel Ebeneser, Eglwysbach o dan arweiniad y Parchedig Philip Barnett gyda Dafydd Huw Wrennall wrth yr organ. Y morynion oedd Siriol a Miriam Hughes, chwiorydd y briodferch, a'r gwas priodas oedd Gethin Bickerton, brawd y priodfab. Cafwyd gwledd i ddilyn ym Mhlas Isaf, Corwen. Byddant yn ymgartrefu yn Lloran Uchaf. Pob hapusrwydd i chi yn eich bywyd priodasol.



Llongyfarchiadau cynnes hefyd i Gwion Hughes, Bryn Hafod a Mererid ar achlysur hapus eu priodas yng nghapel Jeriwsalem, Cerrigydrudion, ar ddydd Sadwrn 30 Medi o dan arweiniad y Parchedig Huw Dylan Jones. Bu'r wledd briodasol wedyn yn Kinmel, Abergele. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

## Bethel, Deganwy

**BORE COFFI**
Cynhaliwyd bore coffi ym Methel ar 14 Hydref pan lwyddwyd i godi dros £250 tuag at Gronfa Ward Canser (Alaw), Ysbyty Gwynedd, Bangor. Roedd yn galonogol gweld cynifer o bobl o bob oedran yn cefnogi gwaith Grŵp Canser Cristnogol Ardal Conwy. Diolch i bawb ac yn arbennig i Megan, Marina, Wendy a Doreen am ofalu am y lluniaeth penigamp, hefyd i Diane a Peter am baratoi'r ystafell. Enillwyd tebot seramig, cwpan a soser ynghyd â chyflenwad o de arbennig gan Ann Wensley. Hyfryd oedd gweld Lizzie Evans a'i mab Emrys, 5 oed, yn bresennol. Mae Lizzie yn dilyn cwrs hyfforddiant Addoli: Arwain a Phregethu ac yn symud yn fuan i'r Tŷ Capel i fyw.
**GOHEBYDD .** OWIE MORRIS





## Horeb, Bae Colwyn a Disgwylfa, Penmaen


**GWASANAETH OLAF**
Trist oedd cynnal y gwasanaeth olaf yn Horeb ar Orffennaf 18fed, 2023. Daeth cynulleidfa deilwng ynghyd i'r cyfarfod hwn o ddiolchgarwch am Horeb a Disgwylfa gan nodi tranc yr achos yn y ddau le ar ôl tua 120 o flynyddoedd o dystiolaeth. Horeb oedd y capel Cymraeg diwethaf yng nghanol Colwyn. Dan arweiniad y gweinidog, y Parchg. D. Marc Morgan, cafwyd gwasanaeth teimladwy gyda'r Parchg. Ddr Jennie Hurd, y Parchg. Ifor Jones a Mr Owen Morris yn cynorthwyo. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn ystod y gwasanaeth.







**ER COF ANNWYL**
Gyda thristwch y clywsom ar y 14eg o Hydref am farwolaeth John Evan Jones. Fel Ysgrifennydd Cyffredinol Horeb a Disgwylfa, bu'n ffyddlon a gweithgar. Daliodd y swydd am lawer blwyddyn, yn wir nes i'r achos ddod i ben ym mis Gorffennaf. Yn wreiddiol o Borth y Gest, wedi cyfnod yn y fyddin aeth John i'r byd ariannol gyda'r banc a bu'n byw a gweithio mewn sawl lle yn Lloegr a Chymru. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf i Rhiannon a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth.
**GOHEBYDD .** KEN OWEN



## Bethel, Rhiwbeina

**OEDFAON**
Ar 24 Medi cawsom oedfa dan ofal yr aelodau; diolch i Mrs Mair Davies am gynllunio'r gwasanaeth hwn ar thema Diolchgarwch. Yn ystod mis Hydref cawsom gyfle i groesawu i'r pulpud y Parchedig Gwilym Wyn Roberts, Mr Ion Thomas a'r Parchedig Aled Edwards, a hefyd ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan a weinyddodd y Cymun.

**AELODAU NEWYDD**
Mae sawl aelod newydd wedi ymuno â ni yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar Hydref 22ain cawsom gyfle i groesawu'n ffurfiol Mr Hefin Jones, gynt o Aberystwyth. Yn ein cyfarfod blynyddol ar Hydref 16eg cawsom y newyddion da bod nifer yr aelodau wedi cynyddu ers y cyfarfod diwethaf.

**YSGOL GYMRAEG Y GAIMAN**
Cofion gorau at Llinos Howells sydd ar hyn o bryd yn gweithio'n galed yn dysgu'r plant yn Ysgol Gymraeg y Gaiman.

**PARATOI AT Y NADOLIG**
Bydd côr y capel yn dechrau ymarfer ar Sul cyntaf Tachwedd er mwyn paratoi ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig. Edrychwn ymlaen hefyd at fwynhau cinio Nadolig gyda'n gilydd ddechrau Rhagfyr.

**CEFNOGI'R AMBIWLANS AWYR**
Ar 21 Tachwedd byddwn yn cynnal Bore Coffi gyda'r elw yn mynd at Ambiwlans Awyr Cymru.
**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS



## Ebeneser, Treuddyn

**PROFEDIGAETH**
Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar Gwenda Jones yn eu colled. Cynhaliwyd ei hangladd yn Ebeneser dan arweiniad y Parchg Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ.

**CLWB CAPEL EBENESER**
Braf yw cael dweud bod dau blentyn arall wedi ymuno â'r Clwb. Mae'n galondid fod cynifer yn dod i'r Clwb misol i ddysgu mwy am y Beibl trwy wahanol weithgareddau. Cynhelir y Clwb ar y Sul cyntaf o bob mis am 10 y bore.

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Eto eleni rydym yn casglu anrhegion ar gyfer Apêl Gweithredu Dros Blant, dan ofal y Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan. Diolch iddynt am eu gwaith i'r elusen.

**GWASANAETH CAROLAU**
Cynhelir ein Gwasanaeth Carolau dwyieithog undebol am 2.30 pnawn dydd Sul, Rhagfyr 17eg dan ofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni.


**DIOLCHIADAU**
Ar ddiwedd blwyddyn hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cynnal gwasanaethau yma, gan gynnwys ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES



**DATHLU**
Ar Dachwedd 5ed, yn dilyn gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Jennie Hurd, cawsom gyfle i longyfarch Mrs Carys Huxley ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Bu Carys yn aelod o'r capel ers yn blentyn.

## Cynfaen, Calcoed

**DIOLCHGARWCH**
Braf oedd croesawu'r Parchg Ddr Jennie Hurd i arwain ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Daeth cynulleidfa dda ynghyd a braf oedd cael cwmni ein cyfeillion o Salem, Pentre Helygain. Addurnwyd y ffenestri a'r allor yn hyfryd. Ar derfyn y gwasanaeth mwynhawyd paned a lluniaeth.
**GOHEBYDD .** GERAINT ROBERTS





# Y WEFR O WELD A CHLYWED CERDDORFA AURORA

## *gan Gareth Blainey*

Yn y golofn hon ddwy flynedd yn ôl ysgrifennais i am y wefr ges i wrth wylio Cerddorfa Aurora ar y teledu.

Y gerddorfa hon a sefydlwyd yn 2004 oedd y gerddorfa broffesiynol gyntaf yn y cyfnod modern i berfformio symffoni gyfan heb gopïau o'r gerddoriaeth o'u blaenau – symffoni rhif 40 Mozart – yn 2014. Mae'r gerddorfa wedi perfformio nifer o ddarnau ar y cof ers hynny ac ym mis Awst 2021 rhyfeddais at ddoniau aelodau'r gerddorfa wrth iddyn nhw berfformio 'Yr Aderyn Tân' (The Firebird) gan Stravinsky yn un o gyngherddau'r 'Proms' yn Llundain heb gopïau.



Ar Sadwrn cyntaf mis Medi 2023 ces i wefr fwy fyth. Es i Neuadd Frenhinol Albert yn Llundain i wylio'r gerddorfa yn perfformio 'Defod y Gwanwyn' (The Rite Of Spring) gan Stravinsky. Cafodd y darn y ffugenw "The Riot Of Spring" ar ôl i'r perfformiad cyntaf greu cynnwrf ym Mharis yn 1913. Bu nifer o aelodau'r gynulleidfa yn y Théâtre des Champs-Elysées yn ymladd gyda'i gilydd a thaflodd rhai o'r gynulleidfa lysiau tuag at y gerddorfa. Gadawodd Stravinsky ei sedd yn y theatr ar ôl i rai o'r gynulleidfa chwerthin yn wawdlyd a gwyliodd weddill y perfformiad o ochr y llwyfan.

Cafodd 'Defod y Gwanwyn' ymateb hollol wahanol yn y cyngerdd y bues i ynddo. Cafodd Cerddorfa Aurora gymeradwyaeth fyddarol gan y gynulleidfa ar ôl perfformiad gwych o dan arweiniad Nicholas Collon. Mae'r ffaith eu bod nhw wedi llwyddo i wneud hynny heb gopïau yn gamp aruthrol a doeddwn i'n synnu dim fod gohebydd cerddoriaeth glasurol papur newydd y 'Guardian' Erica Jeal wedi rhoi canmoliaeth uchel i'r gerddorfa yn ei hadolygiad o'r cyngerdd.

Ar ôl dod adre i Bontypridd ces i wybod fod Heledd Gwynant o Gaerffili yn y gerddorfa yn chwarae offerynnau taro. Ces i sgwrs ar y ffôn gyda Heledd. a raddiodd o'r Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain ddwy flynedd yn ôl. Dywedodd hi wrtha i fod ganddi 'ddealltwriaeth ddyfnach o'r darn' ar ôl dysgu ei rhannau unigol hi ar ei chof. "Team effort" oedd disgrifiad Heledd o'r perfformiad a dw i'n falch iawn fy mod i wedi gweld a chlywed "team effort" mor arbennig.

# Am nad oedd iddynt le yn y llety…

*gan Dr Huw Tegid*

Mae'n bur debyg y byddwch chi yn ei chanol hi efo paratoadau'r Nadolig erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd chi. Tybed lle'r ydych chi arni erbyn hyn? Ydych chi wedi prynu digon o gardiau Nadolig (gan Aled Davies ym Mhabell Cytûn yn yr Eisteddfod, efallai? Rŵan, lle ddaru chi eu rhoi nhw yn ôl ym mis Awst, dywedwch…) Ydi'r pwdin wedi ei wneud? Beth am y twrci neu beth bynnag arall fydd canolbwynt y prif bryd bwyd ar y diwrnod mawr – ydych chi wedi cofio archebu hwnnw? A beth wedyn am yr anrhegion? Ffiw – os mai eistedd i lawr i gael pum munud o lonydd ydych chi yng nghanol yr holl rialtwch, wela' i ddim bai arnoch chi! Mae'r Nadolig yn gallu bod yn gyfnod prysur iawn, a dweud y lleiaf.

Lle prysur oedd Bethlehem ar y Nadolig cyntaf hwnnw, mae'n debyg, neu o leiaf dyna'r argraff a gawn ni wrth ddarllen Luc 2:7 – "Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo," fel y dywedir yn fersiwn modern beibl.net. Mae'n bosib ein bod ni'n dehongli hynny fel diffyg paratoi digonol gan Joseff, sy'n ddehongliad dealladwy o bosib wrth ystyried ei fod wedi gorfod dod â Mair gydag ef ar y daith ar fyr rybudd. Tybed, er hynny, a oes ystyr fwy sinistr i'r ymadrodd – ai amharodrwydd y teulu i groesawu Joseff a'r ferch ifanc oedd gydag ef oedd y rheswm nad oedd iddynt le yn y llety? Wedi'r cwbl, y wŷs oedd i bawb fynd adref i'w dref ei hun, a hynny at y teulu, ac fe fyddai'r teulu yn gwneud eu gorau i groesawu'r ymwelwyr, fe fyddai rhywun yn tybio. Ond doedd dim modd cuddio'r ffaith bod Mair yn feichiog, ac fe wyddai'r teulu nad oedd y ddau yn briod… A oedd rhesymau eraill pam y trowyd y ddau 'i lety'r anifail, a hi'n hwyrhau', tybed? Ydyn, mae pobl yn gallu bod yn galon galed ac anghroesawgar ar adegau, hyd yn oed wrth ymdrin â'u teuluoedd eu hunain.

O sôn am deuluoedd, tybed sawl un ohonoch chi sydd wedi gweld ffilm gomedi '*National Lampoon's Christmas Vacation*'? Efallai y daw cyfle eleni os na welsoch chi hi hyd yn hyn. Mae aelwyd teulu Griswald yn orlawn yn barod o neiniau, teidiau – a modryb ac ewythr oedrannus ar eu ffordd, hefyd – wrth i'r penteulu geisio trefnu'r 'Nadolig perffaith'. Yna, yn gwbl ddirybudd, mae cyfnither ei wraig yn cyrraedd, gyda'i gŵr a'u plant. "*We have plenty of room!*" meddai gwraig y tŷ drwy ei dannedd, wrth geisio cuddio'r straen amlwg o orfod meddwl lle buasai pedwar arall yn gallu ffitio yn y tŷ. Ond wyddoch chi beth, mae presenoldeb Catherine, ei gŵr di-lun Eddie, a'u plantos tlodaidd yr olwg, Rocky a Ruby Sue (hen anghofio'r ci, Snots), yn sicrhau Nadolig bythgofiadwy i deulu Griswald. Heb ddifetha gormod ar y ffilm os nad ydych chi wedi ei gweld hi, digon yw dweud bod cynlluniau delfrydol a thaclus teulu Griswald yn mynd ar chwâl o ganlyniad i'r ymwelwyr annisgwyl!

Os oes cant a mil o bethau gennych chi o hyd ar y rhestr honno o bethau i'w gwneud cyn yr Ŵyl, ac os ydych chi wedi rhoi pwysau afresymol arnoch chi eich hun i drefnu'r Nadolig 'perffaith' acw eleni, cofiwch mai'r Nadoligau mwyaf cofiadwy ydi'r rhai sy'n croesawu'r annisgwyl, y blêr, yr anhrefnus – yn achos teulu Griswald y ffilm '*National Lampoon*' yn sicr, ac yn bendant yn achos teulu Mab Duw ar y Nadolig cyntaf un hwnnw.

# O'R PEN YMA

*gan Angharad Tomos*



Dau unigolyn dwi am ganolbwyntio arnynt y tro hwn – un gŵr ifanc ac un wraig hŷn.

Daw'r gŵr ifanc o Ddyffryn Nantlle, a'i enw yw Ali Imanpour. Dydw i ddim yn ei 'nabod, ond clywais ei stori ar Radio Cymru rai wythnosau yn ôl. Petai Ali yn cerdded i lawr Stryd Fawr Penygroes, fyddwn i ddim yn gweld dim byd yn wahanol rhyngddo ef ag unrhyw un arall yn y pentref. O'i glywed ar y radio, siaradai Gymraeg rhugl efo acen Dyffryn Nantlle.

Ond mi ddioddefodd Ali ymosodiad hegr pan oedd yn 14 oed. Doedd o ddim yn adnabod y rhai ddaru ymosod arno, ond roeddent hwy wedi ei dargedu ef. Pam? Am ei fod yn Fwslim. Daeth Ali a'i deulu o Iran ym 1989. "Dwi'n gymaint o Gymro ag ydw i o Fwslim," meddai Ali, sy'n methu deall pam ddaru o ddioddef y fath driniaeth. "Sut ydw i yn profi mod i'n rhan o'r 'norm'?… achos dwi'n siarad Cymraeg ac yn deall y diwylliant."

Y gwir amdani yw na ddylai Ali orfod profi dim. Mae'n Gymro ac mae'n Fwslim. Y rhai ymosododd arno ddylai ddysgu'r wers. Rhaid inni ganfod ffordd o beidio rhoi pobl mewn bocsys, a hybu'r syniad fod Mwslemiaid yn perthyn i'r 'arall', i'r 'gwahanol', i'r rhai y mae'n iawn eu difrïo a'u dilorni gan 'nad ydynt yr un fath â ni'. Rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth, a dysgu peidio eithrio neb. Dyna holl ergyd stori'r Samariad Trugarog.

Mae trugaredd yn rym eithriadol, ac o'i weithredu yn gallu symud mynyddoedd.


Sy'n dod a mi at y wraig hŷn, 85 oed i fod yn fanwl gywir. Efallai y bydd yr enw yn gyfarwydd i chi – Yocheved Lifshitz o Israel. Ar Hydref 7ed eleni, roedd hi ymysg y 200 o Israeliaid a herwgipiwyd gan filwyr Hamas fel gwystlon. 17 diwrnod yn ddiweddarach, cafodd ei rhyddhau drwy Rafah, y ffin rhwng Gaza a'r Aifft. Gyda chamerâu y byd arni, ni fyddai neb wedi beio Yocheved petai wedi torri i lawr oherwydd rhyddhad ar ôl bod yn wystl, neu boeri pob melltith posib ar Hamas a phobl Palesteina. Byddai pawb wedi deall yng nghanol gwewyr ei dioddefaint petai wedi crefu am waed a dialedd. Wnaeth hi ddim. Wrth gael ei hebrwng o'i chaethiwed, gwnaeth Yocheved rywbeth rhyfeddol. Trodd yn ôl at filwyr Hamas ac ysgwyd llaw ag un ohonynt. Yna llefarodd y gair 'Shalom', sef heddwch.

Syfrdanwyd pawb. Roedd yn enghraifft ddramatig o faddeuant a thrugaredd.

Wn i ddim pam y gwnaeth Yocheved hyn, ond o glywed ei hanes, ron i'n deall yn well. Ymgyrchydd heddwch yw Yocheved ers blynyddoedd, sydd wedi helpu y clwyfedig yn Gaza gan fynd â nhw i ysbyty yn Israel. Gohebydd yw ei gŵr, Oded, sy'n 83 oed. Ef oedd un o'r gohebwyr dorrodd y stori am y lladdfa mewn gwersyll ffoaduriaid yn Beirut ym 1982. Mae'n siarad Arabeg yn rhugl.

Gall fod rheswm arall. Ganed Yocheved yn Iddewes ym 1938, flwyddyn cyn yr Ail Ryfel Byd. Gŵyr yn well na neb ystyr dioddefaint.

Does dim rhaid pegynnu barn a rhoi ein hunain ar y naill begwn neu'r llall. Dysgwn gan Ali a Yocheved, a gwnawn ein rhan i addysgu ein hunain ac estyn llaw i rai sy'n wahanol inni. 'Parhaed brawdgarwch'. (Hebreaid 13, 1).





# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**



## JOSEFF

**"Ei dad e ydw i"**

Dyma eiriau agoriadol ysgrif arbennig am Joseff, gan y Parchedig Meurwyn Williams yn ei lyfr *Am Funud…Sgyrsiau a Gweddïau* a gyhoeddwyd gan Dŷ John Penri yn 1988. Yn drist iawn bu farw Meurwyn ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Y tu mewn i'r llyfr cedwais hyd heddiw gopi o'r *Tyst* o fis Mai 1998, lle cafwyd coffâd arbennig i Meurwyn gan Huw Ethall a ddaeth yn weinidog ar gapel Bethania, Rhosaman, Brynaman pan oedd Meurwyn yn grwt deg oed. Byddai Meurwyn yn sôn wrthyf yn aml am ei ddyled enfawr i'w fagwrfa grefyddol yng nghapel ei blentyndod. Deuthum i'w adnabod yn dda pan ddaeth yn weinidog ar gapel Soar ym Mhenygroes, Dyffryn Nantlle, a minnau yn offeiriad ym Mro yr Eifl. Bob nos Lun âi Ann fy ngwraig i ymarferion Parti Cerdd Dant Lleu ym Mhenygroes. Arweinydd medrus y parti oedd priod Meurwyn, Carys (Puw). Awn innau at Meurwyn am sgwrs a gwylio wedyn y gyfres wych honno *The Sweeney*. Anhygoel fod Meurwyn o ran edrychiad yn union fel y prif actor, yr amryddawn John Thaw! Ni chafodd Radio Cymru well pennaeth rhaglenni crefyddol na Meurwyn – roedd ei fyfyrdodau cyn clwydo ar nosweithiau Sul, fel gweddill ei gyfraniadau ar y cyfrwng, yn rhai i'w trysori. Roedd ei brofiad fel gweinidog a'i hoffter o weithio gyda phobl, beth bynnag eu cefndir, yn rhan annatod o'i waith. Os ydych yn chwilio am ddarlleniadau i Oedfa'r Ŵyl eleni, trowch i'w lyfr.

## PWY OEDD JOSEFF?

Yr argraff a roddir ar brydiau yw mai dyn oedrannus oedd Joseff, a oedd ar y cyrion i raddau yn stori'r Geni. Ond nid dyna mae'r Testament Newydd yn ei ddweud oherwydd gwelwn fod ganddo rôl flaenllaw yn yr hanes a'i fod yn ddyn a oedd yn gymwys i wneud penderfyniadau a rhoi arweiniad. Fel Mair, dangosodd Joseff ffydd ddofn ac roedd yn ymwybodol o'r rhan yr oedd ef a Mair yn ei chwarae ym mhwrpas Duw. Gwelwn ofal Joseff am Iesu a Mair. Byw er eu lles a'u daioni wnaeth – roedd yn wirioneddol yn ŵr Duw! Mae dydd gŵyl Joseff, priod y Fendigaid Forwyn Fair, ar y 19eg o Fawrth yn y calendr Cristnogol.

## CAROL FY MHLENTYNDOD

Ymddengys Joseff mewn llawer cerdd a charol a phan oeddwn yn blentyn yn Eglwys Dinorwig gynt roedd y garol "Y Gân Newydd" sydd yn ail gyfres *Llyfr Carolau Bangor* yn ffefryn gen i. Cyhoeddwyd y llyfryn gyda hen nodiant a sol-ffa dan nawdd Pwyllgor Cerdd Esgobaeth Bangor – stabl hynod gynhyrchiol o safbwynt emynau, carolau a chantiglau a'r cyfan yn uniaith Gymraeg. Un o ffyddloniaid brwd, gweithgar a ffyddlon y Pwyllgor Cerdd am flynyddoedd oedd y diweddar annwyl Cledwyn Jones, un o driawd y Coleg. Carol Ffrengig o'r 15fed ganrif oedd "Y Gân Newydd" gyda'r trefniant o waith Caradog Roberts a'r geiriau gan Elfed. Mae'r garol o ddeuddeg pennill fel ymgom ar gân rhwng Mair, Joseff a Gŵr y Tŷ gyda'r gynulleidfa yn ymuno yn y pennill olaf. Dyma'r ddau bennill cyntaf:-

**MAIR**<br>
Joseff hoff, rwyf wedi blino<br>
Gan bryderon oriau maith.<br>
Oes rhyw gartref yn y golwg<br>
Lle cawn orffwys wedi'r daith?

**JOSEFF**<br>
Er ei bod yn nosi weithian,<br>
Paid, anwylaf Fair, tristáu:<br>
Dacw olau yn y pellter-<br>
Pwy mor galed a'n nacáu?

Gorffennaf gyda chlasur Dafydd Islwyn, *Seiat y Stabal*:<br>
'Wyt ti'n iawn, Mair?<br>
Mae rhyw fodlonrwydd<br>
yn dy lygad mamol<br>
a gwefr y geni<br>
yn dal i ddal ei afael<br>
ar dy wyneb balch.

Mae'r bychan yn cysgu<br>
yn angylaidd<br>
ac yn llond ei groen.

Beth ddaw ohono?<br>
Dilyn yn ôl troed ei dad?'

'Gad im gysgu blwc, Joseff.<br>
Mi ddweda' i'r cyfan<br>
wrthot ti wedyn.'

# Celf mewn Addoliad

Diolch i'r Diacon Jon am y sesiynau Celf mewn Addoliad, un yn Sgeti ym mis Medi ac un yn Hen Golwyn ym mis Hydref. Diolch hefyd i bawb wnaeth helpu, yn enwedig Delyth o'r Rhwydwaith Dysgu. Roedd yn braf dysgu am Visio Divina. Cafodd pawb gyfle i fod yn greadigol a myfyrio ac roedd yn hyfryd iawn.








# Ar gyfer y plant



Fedrwch chi ddefnyddio'r sgwariau i wneud llun coeden Nadolig debyg i'r un ar y chwith?



**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**